

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthed Ecosystemau

Mae gan Cyngor Tref Porthmadog ddyletswydd statudol o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (2016)

i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnherthed ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

Er mwyn cydymffurfio dylai Cyngor Tref Porthmadog:

wreiddio'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau cynnar a'u cynlluniau busnes, gan gynnwys unrhyw bolisiâu, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol.

Rhaid i bob awdurdod cyhoeddus (gan gynnwys pob Cyngor Cymuned a Thref) gyhoeddi adroddiad ar yr hyn a wnaethant i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Dylai'r adroddiad cyntaf fod wedi cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Rhagfyr 2019, ac wedi hynny rhaid cyhoeddi adroddiad cyn diwedd pob trydedd flwyddyn. Dylai adroddiad fod wedi cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Rhagfyr 2022. Mae adroddiadau'n cynnig tryloywder, atebolrwydd ac maent hefyd yn offeryn cyfathrebu.

Gellir cyhoeddi adroddiadau ar wefan neu gellir eu darparu os gwneir cais amdanynt.

Mae **Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP)** yn cyflwyno chwe amcan ar gyfer dadwneud colli bioamrywiaeth, a dylid eu defnyddio i helpu datblygu a llywio gweithredoedd i gydymffurfio â dyletswydd adran 6:

Y 6 amcan i gynnal a chryfhau bioamrywiaeth yw:

Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well.


Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd.

Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd.

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.

CYNGOR TREF PORTHMADOG



Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2022

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6

Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2022

Enw y Cyngor Tref neu Gymuned: CYNGOR TREF PORTHMADOG

Cyflwyniad a'r Cyd-destun

Mae Cyngor Tref Porthmadog (y Cyngor) yn darparu amrediad o wasanaethau i'w gymuned leol sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb am barc lleol o'r enw Cae Chwarae Bodawen
- Cyfrifoldeb am fannau gwyrdd.
- Cyfrifoldeb am lwybrau cyhoeddus
- Cyllid – rydym yn rhoi grantiau ar gyfer prosiectau yn ardal y Cyngor.
- Cyfrifoldeb am 53 rhandir Cae Pawb sy'n darparu gerddi llysiau a blodau ar gyfer trigolion ardal Porthmadog.
- Rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth drwy gyflawni amcanion cynaliadwyedd a gweithredu arferion cynaliadwy lle bynnag y bo modd, ac mae hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd y Cyngor.
- Mae Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo'r Cyngor yn trafod materion fel torri gwair a chynefinoedd bywyd gwylt.
- Rydym yn gwasanaethu tua 4,200 o drigolion. Y praesept ar gyfer 2022–23 yw £62,581.43.

Adroddiad Gweithredu		
Camau gweithredu i:		Wedi eu monitro gan: Pwyllgor Llawn y Cyngor Tref
-cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn adlewyrchu'r ymrwymiad i fioamrywiaeth ac ardaloedd naturiol yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor o hyn allan. • Yn rhoi sylw i fioamrywiaeth wrth ystyried ceisiadau cynllunio a materion cysylltiedig eraill. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymrwymïadau a wnaed mewn dogfennau • Trafod bioamrywiaeth wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.
-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd	<p>Bu'r Cyngor yn cydweithio gydag ysgolion Cynradd yr ardal er mwyn eu cynnwys yn y broses o blannu coed y Woodland Trust. Rhoddodd hyn gyfle i hysbysebu a chodi proffil y weithgaredd yn y papurau lleol ac yn y cyfryngau cymdeithasol. Credir bod gwaith dilynol wedi ei gyflawni gan yr ysgolion er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd plannu coed er lles yr amgylchedd. Pwysleiswyd y ffaith mai'r disgyblion hyn fydd yn gweld ffrwyth eu llafur yn y blynyddoedd i ddod.</p>	Pwyllgor Llawn y Cyngor Tref
-diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd -adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	<ul style="list-style-type: none"> • Bu'r Cyngor yn llwyddiannus iawn yn derbyn dros 100 o goed cynhenid gan y Woodland Trust. • Derbyniwyd offer garddio a choed ffrwythau gan gronfa Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol. <p>Trwy gyflawni'r meini prawf canlynol :-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu plannu blodau gwyllt; • Cynyddu peillwyr; • Cynyddu dolydd ar dir ar lethrau; • Newid arferion torri gwair i annog blodau gwyllt a chynyddu bioamrywiaeth; • Newid arferion torri gwair i annog blodau gwyllt a chynyddu 	Pwyllgor Llawn y Cyngor Tref

	<p>bioamrywiaeth;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu plannu coed lleol, gan gynnwys coed stryd, perllannau a choetiroedd bychan, gan gynnwys fforestydd bach iawn; <p>llwyddodd y Cyngor i sicrhau derbyn grant o £6,600.00 gan Bartneriaeth Natur Lleol Gwynedd 2022-23 i ariannu :-</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Scariffio llain o dir yn hanner orllewinol Cae Chwarae Bodawen a hadu carped o flodau gwyllt arno. Byddai'r llecyn yma wedyn yn cael llonydd i dyfu heb yr angen arferol i dorri gwair ac yn cynnig gwledd i'r synhwyrâu i bawb sydd yn mynd i mewn ac allan o'r cae, yn ogystal â chreu ardal ar gyfer hyrwyddo tirweddau a rhywogaethau er budd peillwyr a chynyddu bioamrywiaeth. 2. Creu llwybr cerdded igam ogam drwy ganol y maes blodau. 3. Plannu 24 o goed afal, gellyg ac eirin ar hyd ochr ddeheuol y safle gyda "stakes and ties". <p>Cyngor Tref Porthmadog oedd yn arwain y weithgaredd gyda chydweithrediad Mr John Hywyn Williams, Cydlynnydd Partneriaeth Natur Gwynedd. Bu'r Cyngor yn cydweithio gyda disgyblion Ysgol y Gorlan, Tremadog ac Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog i gyfrannu at y profiad o blannu coed a dderbynwyd gan y Woodland Trust ar dri achlysur ym mis Tachwedd 2022.</p>	
--	--	--

Arolwg o ddyletswydd Adran 6

Beth sydd wedi gweithio'n dda?

Cafwyd arweiniad a chefnogaeth ardderchog gan Mr John Hywyn Williams, Cydlynnydd Partneriaeth Natur Gwynedd a'i gydweithiwr Mr Jack Walmsley wrth fynd ati i blannu'r coed cynhenid gyda'r disgyblion Cynradd. Bu swyddogion Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am dorri gwair

Cae Bodawen hefyd yn gefnogol iawn i'r cynllun.

Beth fu'r rhwystrau?

- Camddealltwriaeth ymysg rhai trigolion lleol oedd wedi lleisio eu barn yn negyddol iawn yn y cyfryngau cymdeithasol am y gwaith plannu. Roedd hyn yn golygu fod y Cyngor yn gorfod gwneud datganiad mai **nid** y Cyngor oedd yn gwario arian cyhoeddus ond mai grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol oedd yn ariannu'r fenter.
- Yr angen am griw o wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith plannu a gwaith dilynol.

Beth fyddwch yn ei newid?

- Sicrhau fod y cyhoedd yn derbyn gwybodaeth mewn da bryd ymlaen llaw i osgoi camddealltwriaeth.
- Sicrhau gwirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith.

Sut a phryd fydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 wedi'i adolygu?

Bydd y ddyletswydd yn cael ei monitro gan y Clerc, a'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo ac yna yn y Cyngor Llawn. Bydd y Cynllun Adran 6 yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r adroddiadau hyn ac unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth arall a wneir ar gael i'r Cyngor. Bydd y ddyletswydd yn cael ei adolygu unwaith eto ar ddiwedd y cyfnod 3 blynedd sef yn 2025.

Marian Roberts (Clerc)

Mawrth 2023